

Gwasanaeth Adolygu Cwynion Annibynnol
Fforwm y Loteri
darparwyd gan Verita

**Adolygiad cam 3 i gŵyn a wnaethpwyd gan Mr Chris Coppock yn erbyn
Cyngor Celfyddydau Cymru**

Adroddiad i Gyngor Celfyddydau Cymru

Ebrill 2020

Awduron:

Bethany Simpson

Kieran Seale

© Cyngor Celfyddydau Lloegr 2020

Ymgynghoriaeth annibynnol yw Verita sy'n arbenigo ar gynnal a rheoli ymchwiliadau, adolygiadau ac ymholiadau i sefydliadau rheoleiddiedig.

Verita Consultancy Ltd.

338 City Road

London, EC1V 2PY

Ffôn 020 7494 5670

E-bost enquiries@verita.net

Gwefan www.verita.net

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Cylch gorchwyl	7
3. Dull a strwythur	8
4. Crynodeb gweithredol	10
5. Proses dethol cydweithwyr celfyddydol	16
6. Dethol cydweithwyr celfyddydol	19
7. Sut y dilynodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei broses	26
8. Cwyn Mr Coppock ac ymatebion Cyngor Celfyddydau Cymru	34
9. Canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion	38
Atodiad A	41
Atodiad B	42

1. Cyflwyniad

1.1 Dyma adroddiad adolygiad annibynnol o gŵyn a wnaethpwyd gan Mr Coppock, ymgeisydd ar gyfer rhaglen cydweithwyr celfyddydol Cyngor Celfyddydau Cymru (Y Cyngor). Mae'n ymwneud â dethol cydweithwyr celfyddydol y Cyngor yn 2019, y broses a ddilynwyd a'r meini prawf a ddefnyddiwyd i ddewis ymgeiswyr llwyddiannus.

1.2 Prif ddiben y Cyngor yw datblygu a chefnogi'r celfyddydau yng Nghymru a dosbarthu cyllid iddynt. Darperir y cyllid i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol.

1.3 Yn 2018 datblygodd y Cyngor strategaeth newydd o'r enw '*er budd pawb*' sy'n rhoi blaenoriaeth i gryfhau gallu a gwytnwch sector y celfyddydau, ac yn hybu cydraddoldeb fel y sylfaen i gyrraedd yn ehangach i bob cymuned ledled Cymru.

1.4 Yn dilyn y strategaeth newydd hon, penderfynodd y Cyngor bod angen iddo benodi carfan o gydweithwyr celfyddydol i gydweithio ar amrywiaeth o brosiectau. Eu diben fyddai darparu profiad, gwybodaeth ac amrywiaeth o bersbectifau.

1.5 Gwnaeth Mr Coppock gais i fod yn gydweithiwr celfyddydol ac fe'i gwahoddwyd i ddod i un o ddau weithdy dethol. Aeth i'r gweithdy yn Abertawe ar 22 Ionawr 2019. Ar 15 Mawrth anfonwyd neges e-bost at Mr Coppock yn esbonio bod y trafodaethau oedd yn rhan o'r broses dethol yn cael eu hymestyn o fis Mawrth hyd ddiwedd mis Ebrill.

1.6 Ar 23 Mai anfonwyd neges e-bost at Mr Coppock o gyfeiriad e-bost grŵp cydweithwyr celfyddydol yn ymddiheuro am yr oedi o ran cyfathrebu ac yn dweud:

“Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn edrych ar gyflwyno'n raddol y defnydd o Gydweithwyr mewn gwahanol feysydd a byddwn yn cysylltu ag unigolion fel bo'n briodol. I'r rhai ohonoch na fyddwn yn cysylltu â chi yn y misoedd nesaf ynghylch gweithio gyda ni fel Cydweithiwr, gobeithiwn eich bod yn fodlon inni gadw eich gwybodaeth ar ffeil”

Dyma'r ohebiaeth olaf oddi wrth y Cyngor i Mr Coppock ynghylch ei gais.

1.7 Cafodd Mr Coppock wybod bod 47 o gydweithwyr celfyddydol wedi cael eu penodi gan y Cyngor trwy edrych ar ei wefan. Ni chafodd ei ddewis i fod yn gydweithiwr celfyddydol ar yr adeg hon.

1.8 Ar 25 Hydref 2019 cwynodd Mr Coppock wrth y Cyngor am y broses dethol. Mae wedi dweud:

- na chadwyd at broses briodol yn y broses dethol, ac
- nad yw cyfathrebiadau Cyngor Celfyddydau Cymru drwy gydol y broses dethol wedi bodloni'r normau derbyniol a rhesymol.

1.9 Ar 14 Tachwedd 2019 cododd Mr Coppock ei gŵyn o gam un i gam dau o'r broses gwyno. Ar 4 Rhagfyr 2019 gofynnodd Mr Coppock am i'w gŵyn gael ei hadolygu gan yr adolygydd cwynion annibynnol.

1.10 Derbyniodd Verita y gŵyn i'w hadolygu'n annibynnol ar 17 Rhagfyr 2019. Rhoddwyd y wedd derfynol ar y cylch gorchwyl ar 5 Chwefror 2020.

Amserlen

1.11 Rydym wedi nodi amserlen isod er mwyn dangos prif ddyddiau'r broses ymgeisio.

Dyddiad	Cam gweithredu
20 Rhagfyr 2018	Dyddiad cau'r Cyngor am geisiadau am 'gydweithwyr celfyddydol' newydd
22 Ionawr 2019	Gweithdy dethol, Abertawe
23 Ionawr 2019	Gweithdy dethol, Wrecsam
25 Ionawr 2019	Neges e-bost oddi wrth Branwen Dickson yn diolch i'r ymgeiswyr am ddod, yn gofyn am CV (oni chafodd ei ddarparu eisoes), ac unrhyw dderbynebaw am dreuliau teithio.
15 Mawrth 2019	Neges e-bost oddi wrth Branwen Dickson yn esbonio bod y broses trafod yn cael ei hymestyn o fis Mawrth i ddiwedd mis Ebrill.

23 Mai 2019	Neges e-bost oddi wrth Kath Davies (o gyfeiriad e-bost grŵp cydweithwyr celfyddydol). Ymddiheuriad am yr oedi. Yn esbonio bod dethol cydweithwyr yn broses raddol dros y flwyddyn i ddod, ac os na elwir arnyn nhw yn y misoedd nesaf, hoffent gadw gwybodaeth ymgeiswyr ar ffeil.
25 Hydref 2019	Mr Coppock yn cwyno trwy anfon neges e-bost at brif weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru.
6 Tachwedd 2019	Prif weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymateb i Mr Coppock trwy e-bost.
14 Tachwedd 2019	Mr Coppock yn ateb ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru trwy lythyr.
25 Tachwedd 2019	Prif weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru yn ysgrifennu llythyr i ateb ymateb Mr Coppock.
4 Rhagfyr 2019	Mr Coppock yn gofyn am i'w gŵyn fynd at y gwasanaeth adolygu cwynion annibynnol.
17 Rhagfyr 2019	Derbyniodd Verita y gŵyn i gael ei hadolygu'n annibynnol.
5 Chwefror 2020	Cytunwyd ar y cylch gorchwyl.

2. Cylch gorchwyl

Cwyn gan Mr Chris Coppock yn erbyn Cyngor Celfyddydau Cymru

Cylch gorchwyl

Adolygu a ddilynodd Cyngor Celfyddydau Cymru (y Cyngor) broses deg wrth recriwtio a phenodi cydweithwyr celfyddydol.

Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- A yw'r Cyngor wedi darparu ymatebion llawn i'r pryderon a godwyd gan yr achwynydd;
- A yw prosesau'r Cyngor ar gyfer recriwtio cydweithwyr celfyddydol yn deg ac yn briodol;
- A yw dull asesu'r Cyngor wedi hybu cyfle cyfartal i'r holl ymgeiswyr.

Nid cyfrifoldeb y Gwasanaeth Adolygu Cwynion Annibynnol yw gwneud sylwadau ynghylch a ddylai unrhyw gais penodol fod wedi llwyddo, dim ond adolygu a yw'r Cyngor wedi dilyn polisiau a gweithdrefnau priodol yn gywir, eu cymhwyso mewn ffordd gyson a thryloyw, a thrin yr ymgeisydd yn gwrtais, yn deg a heb wahaniaethu.

20 Ionawr 2020

3. Dull a strwythur

3.1 Mae'r adran hon yn nodi sut yr aeth Verita ati i adolygu'r gŵyn ac yn disgrifio strwythur yr adroddiad.

Dull

3.2 Gwnaethpwyd yr adolygiad yn breifat. Ysgrifennodd Verita at Mr Coppock (yr achwynydd), ac at y Cyngor i gadarnhau ein dealltwriaeth o'r gŵyn a chylch gorchwyl Verita. Gofynnodd Verita gwestiynau i'r Cyngor a atebasant dros y ffôn; cytunwyd ar eu hatebion trwy e-bost. Gofynasom am ddogfennau am y broses dethol oddi wrth Mr Coppock, a dogfennau'n nodi'r penderfyniadau a wnaethpwyd gan y Cyngor, ac fe'u cawsom. Ceir crynodeb o'r dogfennau a adolygwyd yn atodiad A.

3.3 Lluniodd Verita amserlen o ddigwyddiadau a gohebiaeth a roddir yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, ac aeth ati i edrych ar y cwestiynau a godwyd gan Mr Coppock.

3.4 Cafodd Mr Coppock a'r Cyngor gyfle i wneud sylwadau ar yr adroddiad hwn tra'r oedd ar ffurf ddrafft fel rhan o'n proses cywirdeb ffeithiol. Ni chawsant unrhyw gasgliadau na chanfyddiadau ar yr adeg hon.

3.5 Wrth werthuso'r dystiolaeth, buom yn ystyried a oedd prosesau asesu a phenderfynu y Cyngor, neu'r ffordd y'u defnyddiodd, yn deg wrth ddethol a phenodi cydweithwyr celfyddydol.

Strwythur

3.6 Mae'r adroddiad yn dechrau gyda chrynodeb gweithredol (adran 4) ac yna'n cynnwys yr adrannau canlynol:

- Mae Adran 5 yn disgrifio'r broses dethol a ddilynodd y Cyngor i asesu a phenodi cydweithwyr celfyddydol yn 2019
- Mae Adran 6 yn nodi'r ffordd y cyflawnodd y Cyngor y broses dethol hon
- Mae Adran 7 yn nodi sut y dilynwyd y broses yn ymarferol

- Mae Adran 8 yn disgrifio'r gŵyn a wnaethpwyd gan Mr Coppock a'r ymatebion a ddarparwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru
- Mae Adran 9 yn rhoi ein canfyddiadau, ein casgliadau a'n hargymhellion.

4. Crynodeb gweithredol

4.1 Yn 2018 penderfynodd y Cyngor bod angen iddo benodi carfan o gydweithwyr celfyddydol i gydweithio ar amrywiaeth o brosiectau. Gwnaeth Mr Coppock gais i fod yn gydweithiwr celfyddydol ond ni fu'n llwyddiannus yn y pen draw. Cwynodd fod y broses dethol yn annheg a bod y cyfathrebu oddi wrth y Cyngor yn wael.

Y broses dethol ar gyfer cydweithwyr celfyddydol

4.2 Dywedodd y Cyngor wrthym fod y broses dethol hon yn wahanol i'r un y byddent yn ei defnyddio i recriwtio staff parhaol, oherwydd bod cydweithwyr celfyddydol yn mynd i gael eu defnyddio ar sail ad hoc. Felly, mabwysiadodd y Cyngor broses y Rheoliadau Caffael Cyhoeddus.

4.3 Mae 11 cam i broses y Rheoliadau Caffael Cyhoeddus y gellir eu gosod yn y categorïau canlynol:

- a) Cwmpas - canfod beth sy'n ofynnol ar gyfer y rôl
- b) Meini prawf - creu meini prawf gwerthuso ar gyfer barnu ymgeiswyr yn deg
- c) Hysbysebu - sut a ble y dylai'r sefydliad roi cyhoedduswydd i'r alwad am ddiddordeb
- d) Gwerthuso - adolygu a gwerthuso'r ymatebion gan ddefnyddio'r meini prawf gwerthuso y cytunwyd arnynt ymlaen llaw
- e) Cyfleu canlyniadau - rhoi gwybod i'r ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus
- f) Dechrau gwaith - yr ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau yn eu rôl.

Dethol cydweithwyr celfyddydol

4.4 Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru alwad am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer cydweithwyr celfyddydol yn hydref 2018.

4.5 Cyflwynodd 152 o bobl ddatganiad o ddiddordeb i fod yn gydweithwyr celfyddydol erbyn y dyddiad cau sef 20 Rhagfyr. Cyflawnodd y Cyngor ymarfer 'sifftio cychwynnol' dan arweiniad cyfarwyddwr y celfyddydau gyda chymorth cydweithwyr eraill yng nghyngor y

celfyddyddau. Drwy'r ymarfer sifftio cafodd 92 o'r 152 o ymgeiswyr eu dethol i'w gwahodd i gymryd rhan yn y cam nesaf, sef gweithdy dethol ar 22 neu 23 Ionawr 2020.

4.6 Gofynnwyd i'r 92 o ymgeiswyr llwyddiannus ddewis un pwnc o ymgynghoriad cyfredol y Cyngor ar gyfeiriad Arian y Loteri yn y dyfodol a pharatoi i siarad am y ffordd y byddai modd i'w profiad yn y celfyddydau gael ei drosglwyddo i rôl i cydweithiwr celfyddydol.

4.7 Oherwydd y pellter daearyddol rhwng y ddau weithdy, ni chymerodd yr holl staff ran yn y ddau weithdy (er bod cyfarwyddwr y celfyddydau wedi mynd i'r ddau).

4.8 Mae'r ffaith bod grŵp gwahanol o staff ym mhob gweithdy yn golygu y gallai'r gwaith o farnu ymgeiswyr fod yn anghyson. Mae meini prawf dethol clir yn arbennig o bwysig pan fo ymgeiswyr yn cael eu hasesu gan wahanol aelodau o'r staff. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn gwybod am beth mae cyngor y celfyddydau'n chwilio yn ei ymgeiswyr, a bydd yn atal tuedd oddrychol.

4.9 Cafodd 47 o bobl eu dethol i ddechrau i fod yn gydweithwyr celfyddydol. Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn bwriadu cynnwys yn raddol unrhyw gydweithwyr celfyddydol ychwanegol yr oedd eu hangen yn ystod y flwyddyn.

4.10 Roedd y garfan gyntaf o ymgeiswyr llwyddiannus o'r broses hon fel a ganlyn:

- cafodd 31 o'r 92 o ymgeiswyr a aeth i'r gweithdai ym mis Ionawr eu dethol wedyn i fod yn gydweithwyr celfyddydol
- roedd 12 o unigolion a benodwyd yn gydweithwyr celfyddydol wedi methu â mynd i'r naill na'r llall o'r ddwy sesiwn gweithdy dethol.
- Cysylltodd y Cyngor yn benodol â phedwar o bobl ychwanegol na chyflwynodd ddatganiad o ddi-ddordeb erbyn y dyddiad cau ym mis Rhagfyr. Nid aeth y pedwar hyn i'r naill na'r llall o'r ddau weithdy dethol ond daethant yn gydweithwyr celfyddydol yn ddiweddarach.

4.11 Mae'n ddealladwy bod y Cyngor eisiau rhoi cyfle arall i fod yn gydweithwyr celfyddydol i ymgeiswyr oedd wedi methu â mynd i'r gweithdai. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor fod wedi gofyn i'r ymgeiswyr oedd wedi methu â mynd i'r gweithdai fynd i sesiwn arall ar adeg fwy addas. Mae'r ffaith bod 12 o ymgeiswyr a ddaeth yn gydweithwyr

celfyddydol heb fynd trwy'r broses dethol a nodwyd yn yr hysbyseb am gydweithwyr celfyddydol yn tanseilio'r broses ac roedd yn annheg i'r ymgeiswyr eraill.

4.12 Yn yr hysbyseb am rôl y cydweithiwr celfyddydol, ni ddywedodd y Cyngor y gallai fod angen iddo wyro oddi wrth ei broses er mwyn bodloni ei ofynion. Fel uchod, tanseiliodd hyn y broses.

Sut y dilynodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei broses

Cwmpas

4.13 Nododd gwahoddiad y Cyngor i ymgeiswyr sut i ddatgan diddordeb yn y rôl a rhoddodd bum pwynt am y math o bobl y byddai'n chwilio amdanynt. Ni nododd pa brofiad oedd yn angenrheidiol ar gyfer y rôl ac nid oedd yn cynnwys manyleb person.

4.14 Er nad ymarfer recriwtio oedd dod â chydweithwyr celfyddydol i mewn, mae'r Rheoliadau Caffael Cyhoeddus yn dweud yn glir y dylid creu cwmpas, a nodi'r safonau a chymwysterau gofynnol y mae eu hangen i gyflawni'r rôl. Roedd y rhestr fras oedd yn esbonio'r 'mathau' o bobl a fyddai'n cael eu recriwtio yn annigonol ac yn golygu bod ymgeiswyr yn aneglur ynghylch y gofynion a'r ffordd y byddent yn cael eu barnu yn erbyn ymgeiswyr eraill.

Meini prawf

4.15 Dywedodd y Cyngor wrthym nad oeddent wedi creu meini prawf gwerthuso ar gyfer llunio rhestr fer o ymgeiswyr i ddechrau. Dywedasant wrthym fod hyn "*oherwydd y byddent [y cydweithwyr celfyddydol] yn cael eu contractio ar sail ad hoc yn hytrach na'u cyflogi.*"

4.16 Mae'n ddealladwy bod y Cyngor eisiau i'r ymgeiswyr fynegi eu hunain yn eu ffordd eu hunain. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ellid bod wedi creu neu ddefnyddio meini prawf ar geisiadau o'r fath. Mae'r methiant i greu meini prawf yn mynd yn groes i lawlyfr caffael y Cyngor ac nid yw'n hybu cyfle cyfartal.

Hysbysebu

4.17 Dilynodd y Cyngor y Rheoliadau Caffael Cyhoeddus wrth hysbysebu'r cyfle. Dosbarthodd ef ar draws platfformau perthnasol megis GwerthwchiGymru a phennodd ddyddiad cau i ymgeiswyr. Arhosodd tan y dyddiad cau cyn dethol ymgeiswyr ar gyfer y cam nesaf.

Gwerthuso

4.18 Gofynasom i'r Cyngor sut y penderfynodd pa ymgeiswyr a fyddai'n cael eu gwahodd i'r gweithdai dethol a'u dewis wedyn i fod yn gydweithwyr. Gofynasom a ddefnyddiodd set glir o feini prawf ar gyfer y camau hyn yn y broses. Dywedwyd wrthym fod llunio rhestr fer wedi'i seilio ar drafodaethau gan y staff a'r hyn a deimlent oedd yn fylchau mewn meysydd arbenigedd.

4.19 Gofynasom am ragor o fanylion am y meini prawf oedd yn sail i'r penderfyniadau hyn. Nid oedd y Cyngor yn gallu rhoi inni unrhyw feini prawf ysgrifenedig a ddefnyddiwyd. Hefyd, ymddengys nad oes unrhyw gofnodion ysgrifenedig o ganlyniadau'r gwerthusiadau a gyflawnwyd.

4.20 Mae diffyg unrhyw feini prawf ar gyfer llunio rhestr fer o ymgeiswyr yn creu proses a allai fod yn annheg a dangos tuedd. Barnwyd yr ymgeiswyr ar sail barn amrywiaeth o aelodau gwahanol o'r staff. Roedd hyn yn golygu nad oedd modd cymharu ymgeiswyr â'i gilydd mewn ffordd deg.

4.21 Mae'n bwysig nodi manyleb person, gofynion a meini prawf ym mhob proses dethol er mwyn asesu'n llawn gydnawsedd pob ymgeisydd â'r rôl. Byddai meddu ar feini prawf wedi galluogi'r Cyngor i ganfod unrhyw fylchau yn y garfan o ymgeiswyr, ac wedyn cymryd camau i lenwi'r bylchau, os oedd angen hynny.

4.22 Mae diffyg meini prawf clir yn golygu y byddai rhai ymgeiswyr ar gyfer y cylch hwn o'r rhaglen cydweithwyr celfyddydol wedi gallu bod o dan anfantais.

Cyfleu canlyniadau

4.23 Bu oedi o ran cyfathrebu rhwng y Cyngor a'r holl ymgeiswyr am rôl cydweithiwr celfyddydol. Er yr anfonwyd un neges e-bost ar 15 Mawrth 2019 yn esbonio y byddai oedi, dylid bod wedi anfon neges arall i ddweud na fyddai'r gwaith yn cael ei gyflawni erbyn y terfyn amser diwygiedig.

4.24 Hefyd, nid oedd y neges e-bost a anfonwyd at yr ymgeiswyr aflwyddiannus ar 23 Mai yn glir. Gadawyd yr ymgeiswyr i ddehongli a oedd hyn yn golygu eu bod yn aflwyddiannus, neu a oeddent yn mynd i gael eu dewis yn y flwyddyn i ddod. Byddai'r neges hon wedi gallu bod yn fwy clir gyda geiriad gwahanol. Ar ben hynny, buasai'n rhesymol dweud wrth yr ymgeiswyr aflwyddiannus bod y Cyngor wedi dethol carfan o gydweithwyr.

Cwyn Mr Coppock a'r ffordd yr ymdriniodd y Cyngor â hi

4.25 Ar 25 Hydref 2019 cwynodd Mr Coppock wrth y Cyngor am y broses dethol. Anfonodd neges e-bost at brif weithredwr y Cyngor yn nodi ei farn am y broses a'r cyfathrebiadau a gafodd. Dywedodd:

- na chadwyd at broses briodol yn y broses dethol, a
- nad oedd cyfathrebiadau Cyngor Celfyddydau Cymru drwy gydol y broses dethol wedi bodloni'r normau derbyniol a rhesymol.

A gadwyd at broses briodol?

4.26 Fe ymatebodd y Cyngor i lawer o gwestiynau a phwyntiau Mr Coppock yn ei lythyrau cwyn drwy gydol camau un a dau o'r broses hon. Fodd bynnag, nid esboniodd y Cyngor ei broses yn glir. Felly nid ymatebwyd yn llawn i'r pwynt hwn.

Cyfathrebu

4.27 Roedd cyfathrebu'r Cyngor â Mr Coppock drwy'r broses gwyno yn dda. Roedd yr ymatebion oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru yn cydnabod y bu diffyg cyfathrebu o fewn y broses dethol. Fodd bynnag, nid oedd yr ymateb yn nodi pa feini prawf a ddefnyddiwyd er mwyn asesu'r ymgeiswyr yn deg, na pha gamau oedd yn cael eu cymryd i wella'r cyfathrebu ag ymgeiswyr yn y dyfodol.

Casgliad cyffredinol

4.28 Ni ddilynodd proses dethol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer cydweithwyr celfyddydol y broses a nodir yn eu llawlyfr caffael. Ni chreodd Cyngor Celfyddydau Cymru feini prawf clir ar gyfer asesu ymgeiswyr yn deg ac ni chyfiawnhaodd wyro oddi wrth y broses er mwyn llenwi bylchau mewn arbenigedd. Er nad yw cydweithwyr celfyddydol yn gyflogeion parhaol, maent yn haeddu cael eu hasesu'n deg. Drwy beidio â meddu ar feini prawf gwrthrychol, nid oedd y broses dethol ar gyfer cydweithwyr celfyddydol yn hybu cyfle cyfartal i'r holl ymgeiswyr.

4.29 Bu oedi o ran cyfathrebu â'r ymgeiswyr. Pan ddaeth y neges, nid oedd yn glir i'r ymgeiswyr na fu'n llwyddiannus. Er bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cydnabod hyn, a bod eu hymateb i gŵyn Mr Coppock yn dderbyniol ar y cyfan, byddai'r ymateb wedi gallu bod yn fwy clir wrth nodi pa welliannau o ran cyfathrebu yr oeddent yn eu rhoi ar waith yn y dyfodol.

Argymhellion

A1 Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn dilyn ei brosesau ei hun trwy ddiffinio meini prawf clir i'w defnyddio er mwyn asesu ymgeiswyr yn deg ar gyfer pob rôl.

A2 Dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw gyfathrebu'n amserol ac yn glir.

5. Proses dethol cydweithwyr celfyddydol

5.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r ffordd y caiff cydweithwyr celfyddydol eu dethol, y broses ymgeisio a'r prosesau penderfynu a ddefnyddir gan y Cyngor.

Y broses ar gyfer recriwtio cydweithwyr

5.2 Gofynasom i'r Cyngor pa broses a pholisi roedd wedi eu dilyn wrth ddethol cydweithwyr celfyddydol. Dywedwyd wrthym fod y broses dethol hon yn wahanol i'r un ar gyfer recriwtio staff parhaol, oherwydd bod y cydweithwyr yn mynd i gael eu defnyddio ar sail ad hoc. Felly, mabwysiadodd y Cyngor broses y Rheoliadau Caffael Cyhoeddus.

5.3 Dilynodd y Cyngor ganllawiau o'i llawlyfr caffael. Mae'r llawlyfr yn nodi un ar ddeg o gamau i'w dilyn gan y rheiny sy'n gyfrifol am gaffael cydweithwyr celfyddydol.

5.4 Dyfyniad o'r Rheoliadau Caffael Cyhoeddus o'r llawlyfr yw'r canlynol:

“3.4 CREU CRONFA / RHESTR WEDI'I RHAG-GYMERADWYO / RHESTR DDETHOL O GYFLENWYR AR GYFER CYFANSWM GWERTH SYDD O DAN DROTHWYON YR UNDEB EWROPEAIDD

O bryd i'w gilydd bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn llunio rhywbeth a elwir cronfa / rhestr wedi'i rhag-gymeradwyo / rhestr ddehol o gyflenwyr gwasanaethau ag arbenigedd penodol - gadewch inni alw Rhestr ar hon. Bydd y rhestr hon yn cael ei llunio a'i rheoli'n ganolog...

Er mwyn creu Rhestr:

- 1. Penderfynwch beth fydd cwmpas eich Rhestr h.y. pa wasanaethau y byddwch yn gofyn i gyflenwyr eu cyflenwi, ar ba sail y byddwch yn dethol cyflenwyr i'ch Rhestr, pa safonau neu gymwysterau gofynnol y byddwch yn disgwyl iddynt feddu arnynt er mwyn gallu bod ar eich Rhestr, a sut y byddwch yn gwerthuso hynny a'r strwythur prisiau y byddwch yn disgwyl ei ddefnyddio.*
- 2. Lluniwch fanyleb, meini prawf gwerthuso, gwahoddiad i wneud cais ac amodau contract.*

3. *Hysbysebwn y Rhestr yn Gwerthwchi Gymru ac unrhyw gyfnodolyn masnach perthnasol a rhwch gyfnod hiraf o amser (pennwch ddyddiad cau) i gyflenwyr sydd â diddordeb ymateb.*
4. *Gwnewch yn siŵr bod y gwahoddiad i wneud cais ac ati ar gael i bawb sy'n datgan diddordeb.*
5. *Arhoswch tan y dyddiad cau.*
6. *Cadwch yr holl ymatebion yn ddiogel a pheidiwch â'u hagor tan yr amser a'r dyddiad a nodwyd yn eich gwahoddiad.*
7. *Agorwch yr holl ymatebion ar yr un pryd, o ddewis gyda dau berson yn bresennol, gan nodi ar y ffeil pwy oedd yn bresennol a chadw rhestr o'r holl ymatebion a ddaeth i law.*
8. *Gwerthuswch yr ymatebion gan ddefnyddio'r meini prawf gwerthuso a nodasoch yn y gwahoddiad.*
9. *Rhowch wybod i'r cyflenwyr nad oeddent yn bodloni'r meini prawf nad ydynt ar y Rhestr.*
10. *Rhowch wybod i'r cyflenwyr buddugol eu bod ar y Rhestr.*
11. *Bydd pob darn o waith y byddwch yn ei archebu yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau a anfonasoch gyda'r gwahoddiad."*

5.5 Gellir gosod yr 11 cam yn yr adrannau canlynol:

- g) Cwmpas
- h) Meini prawf
- i) Hysbysebu
- j) Gwerthuso
- k) Cyfleu canlyniadau
- l) Dechrau gwaith

5.6 Rydym wedi nodi isod yr hyn sy'n ofynnol ym mhob adran.

a) Cwmpas

5.7 Diben y cam hwn yw nodi'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer y rôl, gan y bobl sy'n cael eu penodi. Mae'n ofynnol i'r staff benderfynu beth y byddant yn gofyn amdano a pha gymwysterau neu safonau y bydd eu hangen ar gyfer y swyddogaeth.

b) *Meini prawf*

5.8 Mae'r ail gam yn y broses yn nodi sut mae'n ofynnol i'r staff greu meini prawf gwerthuso ar gyfer barnu ymgeiswyr yn deg. Dylid cynnwys y meini prawf yn yr hysbyseb ac unrhyw fanylion pellach a anfonir at y rhai sydd â diddordeb.

c) *Hysbysebu*

5.9 Mae camau 3 - 7 o'r broses hon yn ymdrin â hysbysebu'r swyddogaeth ac yn nodi sut a ble y dylai'r sefydliad roi cyhoeddusrwydd i'r rolau y bydd yn dethol ymgeiswyr ar eu cyfer.

d) *Gwerthuso*

5.10 Mae cam 8 yn ymdrin â gwerthuso ceisiadau a phenderfynu. Dyma ble mae'r staff yn adolygu ac yn gwerthuso'r ymatebion gan ddefnyddio'r meini prawf gwerthuso a nodwyd yn yr hysbyseb.

e) *Cyfleu canlyniadau*

5.11 Camau 9 a 10 o'r broses hon yw rhoi gwybod i'r ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus am ganlyniad eu cais.

f) *Dechrau gwaith*

5.12 Y cam olaf, cam 11, yw lle mae'r ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau yn eu rôl.

5.13 Yn yr adran nesaf rydym yn nodi sut y detholodd y Cyngor gydweithwyr celfyddydol. Yn adran 7 rydym adolygu'r ffordd y dilynodd y Cyngor yr 11 cam hyn.

6. Dethol cydweithwyr celfyddydol

6.1 Mae'r adran hon yn nodi sut y recriwtiodd y Cyngor gydweithwyr celfyddydol yn 2019.

Hysbysebu

6.2 Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru alwad am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer cydweithwyr celfyddydol yn hydref 2018. Yr amcan oedd creu cronfa o unigolion y gallai alw arnynt i gynorthwyo a darparu gwybodaeth ac arbenigedd ychwanegol ar draws amrywiaeth o weithgareddau wrth fwrw ymlaen ag amcanion strategaeth *'er budd pawb'*.

6.3 Dywedodd yr hysbyseb pam yr oedd y Cyngor yn cyflogi cydweithwyr newydd, esboniodd y byddai'r rôl yn cynnwys gweithgareddau megis cymryd rhan mewn grwpiau datblygu, gweithdai a phenderfyniadau ynghylch cyllid grant, a nododd sut i wneud cais. Mae'r hysbyseb lawn *'Chwilio am Gydweithwyr Celfyddydol'* yn atodiad B.

6.4 Cafodd y rhaglen cydweithwyr celfyddydol a'r cais am ymgeiswyr eu hysbysebu trwy blatfformau agored gan gynnwys fframwaith y gwasanaeth caffael cenedlaethol, GwerthwchiGymru, ac ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ac mewn cylchlythyrau. Esboniodd cyhoeddiad gan y Cyngor oddi wrth gyfarwyddwr y celfyddydau, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r hysbyseb am gydweithwyr celfyddydol:

“Rydym ni'n creu ffordd newydd o ymwneud â'r gwaith. Bydd y blynyddoedd yma'n bwysig am fowldio cyfraniad y celfyddydau at y Gymru gyfoes. Rydym ni eisiau cymorth y sector i lywio'r broses yma.”

6.5 Esboniodd yr hysbyseb y byddai'r gwaith yn gallu cymryd *“hyd at 10 diwrnod y flwyddyn yn fras”* a rhoddodd fanylion byr ynghylch sut y câi cydnabyddiaeth ariannol a threuliau eu talu.

6.6 Nodwyd manylion y gofynion ar gyfer cydweithwyr celfyddydol llwyddiannus yn adrannau 'cyflwyniad' ac 'ochr ymarferol' yr hysbyseb. Dywedwyd:

“Mae eisiau inni gydweithio â phobl heriol a llawn dychymyg.... I wireddu ‘Er budd pawb’, mae eisiau Cydweithwyr amrywiol ac ymgyrchol.

Rhaid inni gael Cydweithwyr sy’n gallu gyrru ein gwaith yn ei flaen i gefnogi’r diwylliant Cymraeg.

Rydym ni am gael Cydweithwyr ledled Cymru.”

6.7 Cafodd ymgeiswyr â diddordeb eu hannog i anfon datganiad o ddiddordeb erbyn 20 Rhagfyr 2018 i gyfeiriadau e-bost grŵp.

6.8 Dywedodd yr hysbyseb y bydd cyfres o weithdai dethol yn y Flwyddyn Newydd er mwyn llunio rhestr o wahoddiadau i unigolion fod yn gydweithwyr celfyddydol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.

6.9 Aeth yr hysbyseb ymlaen i ddweud y gellid mynegi diddordeb mewn sawl ffordd. Roedd y manylion i ymgeiswyr fel a ganlyn:

“Byddwch yn gallu mynegi diddordeb mewn sawl ffordd. Rydym ni am gael darn byr am eich bywyd a pham rydych chi â diddordeb yn y gwaith. Bydd hyn yn gallu bod yn ysgrifenedig, ar lafar neu ar ffilm. (Dim mwy na 500 gair neu 3 munud o siarad neu ffilm.)”

Datganiadau o ddiddordeb cychwynnol

6.10 Cyflwynodd 152 o bobl ddatganiad o ddiddordeb i fod yn gydweithwyr celfyddydol erbyn y dyddiad cau sef 20 Rhagfyr. Cyflawnodd y Cyngor ymarfer ‘siffto cychwynnol’ dan arweiniad cyfarwyddwr y celfyddydau gyda chymorth cydweithwyr eraill yng nghyngor y celfyddydau. Drwy’r ymarfer sifftio, cafodd 92 o’r 152 o ymgeiswyr eu dethol i’w gwahodd i gymryd rhan yn y cam nesaf, sef gweithdy dethol.

6.11 Gwahoddwyd pob un o’r 92 o ymgeiswyr a ddewiswyd i ddod i un o ddau weithdy dethol. Dyddiadau’r gweithdai oedd:

- 22 Ionawr 2019 - cynhaliwyd yn Abertawe
- 23 Ionawr 2019 - cynhaliwyd yn Wrecsam.

6.12 Dywedodd y Cyngor wrthym fod 42 o ymgeiswyr wedi mynd i weithdy Abertawe a 26 i weithdy Wrecsam. O ran y 24 o ymgeiswyr eraill, roedd 12 wedi methu â mynd i'r naill weithdy na'r llall oherwydd argaeledd neu salwch. Ni wnaeth 12 o bobl ymwneud ymhellach â'r broses.

Dethol ymgeiswyr o'r datganiad o ddiddordeb

6.13 Gofynasom i Gyngor Celfyddydau Cymru sut y penderfynodd pa ymgeiswyr a fyddai'n cael eu gwahodd i'r gweithdai dethol. Dywedwyd wrthym:

“Seiliwyd y detholiad ar y Datganiadau o Ddiddordeb a ddaeth i law, gan gynnwys ffactorau fel yr amrywiaeth o sgiliau ac arbenigedd yr oedd yr unigolyn wedi'i nodi yn ei fywgraffiad, a sut y byddai'r rhain yn cyflawni o leiaf un o'r gweithgareddau yr oeddem wedi'u rhestru yn yr hysbyseb.

“Mae llunio rhestr fer o'r math hwn yn ystod y cam hwn o'r broses yn arfer safonol mewn gweithgareddau recriwtio a gweithgareddau caffael. Gan ein bod ni wedi gwahodd unigolion i gyflwyno bywgraffiad a datganiad yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol, ni wnaethom weithredu methodoleg sgorio ddiffiniedig ar gyfer y cam asesu cychwynnol hwn.”

6.14 Rydym yn trafod y dull dethol a ddefnyddiwyd gan y Cyngor yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Y gweithdai dethol

6.15 Gwahoddwyd y 92 o ymgeiswyr llwyddiannus i fynd i un o'r ddau weithdy dethol trwy anfon neges e-bost atynt. Gofynnwyd iddynt ddewis un pwnc o ymgynghoriad cyfredol y Cyngor ar gyfeiriad Arian y Loteri yn y dyfodol a pharatoi i siarad am y ffordd y byddai modd i'w profiad yn y celfyddydau gael ei drosglwyddo i rôl cydweithiwr celfyddydol.

6.16 Dywedodd Mr Coppock wrthym fod dull anffurfiol i'r gweithdai. Dechreuodd y diwrnod gyda chyflwyniad byr gan gyn-gyfarwyddwr y celfyddydau. Roedd y cyflwyniad yn nodi pam yr oedd y Cyngor eisiau defnyddio cydweithwyr celfyddydol ac yn esbonio trefn y diwrnod.

6.17 Lluniwyd y gweithdai ar arddull cabaret, ac eisteddodd yr ymgeiswyr mewn grwpiau, er mwyn eu hannog i drafod syniadau â'r ymgeiswyr eraill. Dywedodd Mr Coppock wrthym fod yr ymgeiswyr yn rhydd i ymuno ag unrhyw grŵp o'u dewis am y diwrnod.

6.18 Cafodd un aelod o'r staff ei ddynodi ar gyfer pob bwrdd a hwylusodd y drafodaeth rhwng ymgeiswyr, gan sbarduno cwestiynau a gweithgareddau i'r grŵp. Dywedwyd wrthym bod yr un aelod o'r staff wedi aros gyda'r un grŵp am y diwrnod cyfan. Nhw oedd yn gyfrifol am gychwyn gweithgareddau grŵp gan gynnwys trafodaethau rhwng yr ymgeiswyr am eu profiad eu hunain yn y celfyddydau. Roedd y mathau o gwestiynau a ofynnwyd ar bob bwrdd yn cynnwys:

- Beth yw'r pethau pwysicaf rydych wedi'u gwneud mewn perthynas ag amrywiaeth?
- Beth oedd y prosiect celfyddydol diweddaraf y buoch yn rhan ohono gyda grŵp lleiafrifol ethnig?

6.19 Ar ddiwedd y dydd, rhoddodd pob aelod o'r staff adborth i dîm staffio'r Cyngor ar gyfer y cam nesaf. Defnyddiwyd yr adborth hwn ar gyfer ystyriaeth bellach, a gwnaethpwyd penderfyniadau o ganlyniad i'r trafodaethau hyn.

6.20 Gofynasom i'r Cyngor a oedd yr un aelodau o'r staff yn bresennol yn y ddau weithdy. Dywedwyd wrthym bod cyfarwyddwr y celfyddydau yn bresennol yn y ddwy sesiwn. Fodd bynnag, oherwydd y pellter daearyddol rhwng y ddau weithdy, nid oedd yr holl staff wedi ymwneud â'r ddau ac *'yn hytrach, cafwyd cymorth staff lleol yn y ddau weithdy'*.

Sylw

Er bod rhai aelodau o'r staff yn bresennol yn y ddau weithdy, mae'r ffaith bod grŵp gwahanol o staff ym mhob gweithdy yn golygu y gallai'r gwaith o farnu ymgeiswyr fod yn anghyson. Gan fod yr ymgeiswyr yn cael eu hasesu gan wahanol aelodau o'r staff, byddai wedi bod yn arbennig o bwysig meddu ar feini prawf clir i'w galluogi i wneud hynny. Byddai hyn wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod am beth

roedd cyngor y celfyddydau'n chwilio yn ei ymgeiswyr, ac wedi helpu i atal tuedd oddrychol.

Dethol cydweithwyr celfyddydol o'r gweithdai dethol

6.21 Dywedodd Cyngor Celfyddydau Cymru wrthym mai diben y gweithdai oedd creu cyfle i ddod o hyd i unigolion a fyddai'n cynnig y sgiliau ategol yr oedd eu hangen yn ei garfan o gydweithwyr celfyddydol. Dywedwyd wrthym:

“Trwy greu carfan o Gydweithwyr Celfyddydol roeddem yn chwilio am unigolion a fyddai'n cynnig sgiliau ac arbenigedd ategol i swyddogion Cyngor y Celfyddydau, lluniwyd y gweithdai i greu cyfle i ymchwilio i'r materion hyn. Buom yn ystyried dealltwriaeth y cyfranogion o'n hagenda, y sgiliau penodol y byddent yn eu cynnig a'u gallu i weithio'n gadarnhaol ac yn adeiladol mewn tîm.”

6.22 Yn dilyn y ddau weithdy dethol, pennwyd rhestr fer arall gan gyfarwyddwr y celfyddydau, gyda chymorth cydweithwyr eraill yng nghyngor y celfyddydau, trwy gyfres o gyfarfodydd mewnol yn ystod misoedd Ebrill a Mai 2019, gan arwain at y penderfyniad i benodi 47 o bobl.

Yr ymgeiswyr llwyddiannus

6.23 Cafodd 47 o bobl eu dethol i ddechrau i fod yn gydweithwyr celfyddydol. Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn bwriadu cynnwys yn raddol unrhyw gydweithwyr celfyddydol ychwanegol yr oedd eu hangen yn ystod y flwyddyn.

6.24 Roedd y garfan gyntaf o ymgeiswyr llwyddiannus o'r broses hon fel a ganlyn:

- cafodd 31 o'r 92 o ymgeiswyr a aeth i'r gweithdai ym mis Ionawr eu dethol wedyn i fod yn gydweithwyr celfyddydol
- roedd 12 o unigolion a benodwyd yn gydweithwyr celfyddydol wedi methu â mynd i'r naill na'r llall o'r ddwy sesiwn gweithdy dethol.
- Cysylltodd y Cyngor yn benodol â phedwar o bobl ychwanegol na chyflwynodd ddatganiad o ddi-ddordeb erbyn y dyddiad cau ym mis Rhagfyr. Nid aeth y

pedwar hyn i'r naill na'r llall o'r ddau weithdy dethol ond daethant yn gydweithwyr celfyddydol yn ddiweddarach.

6.25 Mewn gohebiaeth i'r achwynydd drwy gydol yr adolygiad hwn o gŵyn, esboniodd y Cyngor sut y cafodd 12 o bobl eu recriwtio i fod yn gydweithwyr celfyddydol heb iddynt fynd i'r naill weithdy na'r llall. Dywedasant:

“Yn ein barn ni, roedd yr unigolion hyn wedi cyflwyno achos cryf dros eu cynnwys trwy eu Datganiad o Ddiddordeb, yn arbennig lle roedd eu cynnwys yn y prosiect Cydweithwyr Celfyddydol yn mynd i'r afael â bylchau pwysig.

O edrych yn ôl, efallai bod cynnal gweithdai ar ddau ddiwrnod olynol yn rhwystr annefnyddiol i unrhyw un oedd naill ai mewn gwlad dramor neu'n ymgymryd â gwaith arall.”

Sylw

Mae'n ddealladwy bod y Cyngor wedi rhoi cyfle arall i fod yn gydweithwyr celfyddydol i ymgeiswyr oedd wedi methu â mynd i'r gweithdai. Mae'r ystyriaeth ei bod yn annefnyddiol i gynnal y ddau weithdy ar ddiwrnodau olynol yn ymddangos yn rhesymol. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor fod wedi gofyn i'r ymgeiswyr oedd wedi methu â mynd i'r gweithdai fynd i sesiwn arall ar adeg fwy addas. Mae'r ffaith bod 12 o ymgeiswyr a ddaeth yn gydweithwyr celfyddydol heb fynd trwy'r broses dethol a nodwyd yn yr hysbyseb am gydweithwyr celfyddydol yn tanseilio'r broses, ac yn annheg i'r ymgeiswyr eraill.

6.26 Esboniodd Cyngor Celfyddydau Cymru pam yr oedd pedwar unigolyn arall, nad oeddent wedi gwneud cais i fod yn gydweithiwr celfyddydol, wedi'u penodi i'r rhaglen yn ddiweddarach. Dywedodd y Cyngor:

“Roedd hyn er mwyn mynd i'r afael â bylchau penodol o ran arbenigedd, lleoliad neu iaith oedd heb gael sylw digonol trwy'r Datganiadau o Ddiddordeb a ddaeth i law yn wreiddiol.”

6.27 Roedd y Cyngor wedi gwyro oddi wrth y broses a nodwyd er mwyn llenwi ‘bylchau’ profiad yn y grŵp o ymgeiswyr. Rydym yn trafod y bylchau gofynion yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Sylw

Yn yr hysbyseb am rôl y cydweithiwr celfyddydol, ni ddywedodd y Cyngor y gallai fod angen iddo wyro oddi wrth ei broses sefydledig er mwyn bodloni ei ofynion am grŵp llawn o gydweithwyr. Fel uchod, mae hyn yn tanseilio proses y Cyngor.

7. Sut y dilynodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei broses

7.1 Mae'r adran hon yn trafod proses y Cyngor ar gyfer dethol cydweithwyr ac yn trafod a ddilynwyd y broses honno.

Cam 1: cwmpas

7.2 Mae Rheoliadau Caffael Cyhoeddus y Cyngor yn dweud y dylai'r broses dethol ddechrau gyda'r sefydliad dan sylw yn pennu pa wasanaethau sy'n ofynnol, a pha safonau a chymwysterau gofynnol mae eu hangen gan yr ymgeiswyr:

1. *Penderfynwch beth fydd cwmpas eich Rhestr h.y. pa wasanaethau y byddwch yn gofyn i gyflenwyr eu cyflenwi, ar ba sail y byddwch yn dethol cyflenwyr i'ch Rhestr, pa safonau neu gymwysterau gofynnol y byddwch yn disgwyl iddynt feddu arnynt er mwyn gallu bod ar eich Rhestr, a sut y byddwch yn gwerthuso hynny a'r strwythur prisiau y byddwch yn disgwyl ei ddefnyddio.*

7.3 Roedd yr hysbyseb am gydweithwyr celfyddydol yn cynnwys pum pwynt a oedd yn nodi'r gofynion a ddisgwyliwyd gan yr ymgeiswyr:

- Mae eisiau inni gydweithio â phobl heriol a llawn dychymyg.
- Yn allweddol i wireddu uchelgeisiau 'Er Budd Pawb', mae eisiau Cydweithwyr amrywiol ac ymgyrchol.
- Rhaid inni sicrhau bod gennym Gydweithwyr sy'n gallu gyrru ein gwaith yn ei flaen i gefnogi'r diwylliant Cymraeg.
- Rydym ni am gael cydweithwyr ledled Cymru.
- Bydd arnom angen rai Cydweithwyr â phrofiad mewn gweithio'n rhyngwladol a fydd hefyd yn gallu cynnig arbenigedd penodol i'n Pwyllgor Ymgynghorol Cymru yn Fenis ac efallai rheoli prosiectau celfyddydol rhyngwladol o dro i dro.

7.4 Nododd y gwahoddiad i wneud cais sut i ddatgan diddordeb yn y rôl a rhoddodd bum pwynt am y math o bobl y byddai'r Cyngor yn chwilio amdanynt. Ni nododd pa brofiad yr oedd ei angen ar gyfer y rôl ac nid oedd yn cynnwys manyleb person.

Dyweddod y Cyngor wrthym nad oedd wedi creu manyleb person oherwydd:

‘Nid oedd hon yn ymarfer recriwtio fel un ar gyfer staff felly ni cheir disgrifiad rôl na manyleb person fel y cyfryw. Fodd bynnag, roedd ein galwad yn rhoi manylion y mathau o sgiliau yr oeddem yn chwilio amdanynt.’

Sylw

Er nad ymarfer recriwtio oedd dod â chydweithwyr celfyddydol i mewn, mae’r Rheoliadau Caffael Cyhoeddus yn dweud yn glir y dylid creu cwmpas, a nodi’r safonau a chymwysterau gofynnol y mae eu hangen i gyflawni’r rôl. Roedd y rhestr fras o ofynion yn yr hysbyseb oedd yn esbonio’r ‘mathau’ o bobl a fyddai’n cael eu recriwtio yn annigonol ac yn golygu bod ymgeiswyr yn aneglur ynghylch y gofynion a’r ffordd y byddent yn cael eu barnu yn erbyn ymgeiswyr eraill.

Cam 2: creu manyleb a meini prawf gwerthuso

7.5 Diben y cam cyntaf oedd nodi gofynion y rôl. Mae’n arwain ymlaen at gam dau, sef creu manyleb a meini prawf gwerthuso:

2. *Creu manyleb, meini prawf gwerthuso a gwahoddiad i wneud cais ac amodau contract.*

7.6 Gofynasom i’r Cyngor pa feini prawf a ddefnyddiodd i asesu’r ymgeiswyr yn erbyn y gofynion hyn. Dywedasant wrthym nad oedd mecanwaith sgorio diffiniedig gan y cam cyntaf, a hefyd nad oedd gan yr ail gam, sef y gweithdai, ddull sgorio diffiniedig ychwaith gan nad oedd unrhyw gwestiynau penodol. Dywedasant wrthym:

“Gan ein bod ni wedi gwahodd unigolion i gyflwyno bywgraffiad a datganiad yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol, nid wnaethom weithredu methodoleg sgorio ddiffiniedig ar gyfer y cam asesu cychwynnol hwn.

“Ni wnaethom ddefnyddio dull sgorio diffiniedig gan nad oeddem wedi gofyn cyfres o gwestiynau penodol oedd yn galw am ymatebion unigol. Yn hytrach,

defnyddiwyd dull mwy agored oedd yn caniatáu i unigolion fynegi a chyflwyno eu hunain yn eu dewis ffordd.”

7.7 Dywedodd y Cyngor wrthym nad oedd wedi creu meini prawf gwerthuso ar gyfer llunio rhestr fer o ymgeiswyr. Dywedwyd wrthym fod hyn “*oherwydd y byddent [y cydweithwyr celfyddydol] yn cael eu contractio ar sail ad hoc yn hytrach na’u cyflogi.”*

Sylw

Mae’n ddealladwy bod y Cyngor eisiau i’r ymgeiswyr fynegi eu hunain yn eu dewis ffordd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ellir creu neu ddefnyddio meini prawf ar geisiadau o’r fath. Mae peidio â chreu meini prawf am nad yw cydweithwyr celfyddydol yn gyflogeion yn mynd yn groes i lawlyfr caffael y Cyngor ac nid yw’n hybu cyfle cyfartal.

A1 Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau ei fod yn dilyn ei brosesau ei hun trwy ddiffinio meini prawf clir i’w defnyddio er mwyn asesu ymgeiswyr yn deg ar gyfer pob rôl.

Camau 3 i 7: hysbysebu, a cheisiadau

7.8 Mae camau tri i saith o’r broses yn rhoi manylion hysbyseb yr alwad am geisiadau, a rhoi amser i ymgeiswyr ymateb cyn llunio rhestr fer o unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb:

3. *Hysbyseb wch y Rhestr yn Gwerthwchi Gymru ac unrhyw gyfnodolyn masnachol perthnasol a rhowch gyfnod hiraf o amser (pennwch ddyddiad cau) i gyflenwyr sydd â diddordeb ymateb.*
4. *Gwnewch yn siŵr bod y gwahoddiad i wneud cais ac ati ar gael i bawb sy’n datgan diddordeb.*
5. *Arhoswch tan y dyddiad cau.*
6. *Cadwch yr holl ymatebion yn ddiogel a pheidiwch â’u hagog tan yr amser a’r dyddiad a nodwyd yn eich gwahoddiad.*
7. *Agorwch yr holl ymatebion ar yr un pryd, o ddewis gyda dau berson yn bresennol, gan nodi ar y ffeil pwy oedd yn bresennol a chadw rhestr o’r holl ymatebion a ddaeth i law.*

7.9 Dilynodd y Cyngor gamau tri i saith trwy hysbysebu'r cyfle ar draws platfformau perthnasol megis GwerthwchiGymru a phennodd ddyddiad cau i ymgeiswyr. Arhosodd tan y dyddiad cau cyn dethol ymgeiswyr ar gyfer y cam nesaf.

Cam 8: gwerthuso ymgeiswyr

7.10 Mae cam wyth ym mhroses y Cyngor yn nodi sut i werthuso ymgeiswyr gan ddefnyddio'r meini prawf y cytunwyd arnynt ymlaen llaw o'r cam blaenorol, sef cam dau o'r broses dethol:

“8. Gwerthuso'r ymatebion gan ddefnyddio'r meini prawf a nodasoch yn y gwahoddiad.”

7.11 Mae'r broses dethol felly'n dibynnu ar werthuso ymgeiswyr yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

7.12 Gofynasom i'r Cyngor sut y penderfynodd pa ymgeiswyr i'w cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer y gweithdai dethol a'u dewis wedyn i fod yn gydweithwyr. Gofynasom a oedd wedi defnyddio set glir o feini prawf.

7.13 Dywedodd y Cyngor mai un elfen o'r broses benderfynu yn y gweithdai, er enghraifft, oedd i'r staff nodi sut roedd unigolion yn ymddwyn yn eu grwpiau a sut roeddent yn cymryd rhan yn y drafodaeth.

7.14 Seiliwyd y rhestr fer ar drafodaethau staff a'r hyn a deimlent oedd y bylchau mewn meysydd arbenigedd. Ni chafodd y 'bylchau' hyn eu ffurfioli yn y broses.

7.15 Gofynasom am ragor o fanylion am y meini prawf oedd yn sail i'r penderfyniadau hyn. Nid oedd y Cyngor yn gallu rhoi inni unrhyw feini prawf ysgrifenedig a ddefnyddiwyd. Hefyd, ymddengys nad oes unrhyw gofnodion ysgrifenedig o ganlyniadau'r gwerthusiadau a gyflawnwyd.

Sylw

Mae diffyg unrhyw feini prawf ar gyfer llunio rhestr fer o ymgeiswyr yn creu proses sy'n annheg ac a allai ddangos tuedd. Barnwyd yr ymgeiswyr ar sail barn amrywiaeth o aelodau gwahanol o'r staff oedd yn golygu nad oedd modd cymharu ymgeiswyr â'i gilydd mewn ffordd deg.

Mae'n bwysig nodi manyleb person, gofynion a meini prawf ym mhob ymarfer dethol, er mwyn asesu'n llawn gydnawsedd pob ymgeisydd â'r rôl. O fod â meini prawf, byddai'r Cyngor wedi gallu cydnabod yn deg unrhyw fylchau yn y garfan o ymgeiswyr, er mwyn gwyrto oddi wrth y broses os oedd angen hynny.

Byddai rhai o'r ymgeiswyr i'r cylch hwn o'r rhaglen cydweithwyr celfyddydol wedi gallu bod o dan anfantais oherwydd y diffyg meini prawf.

Cam 9 a 10: cyfleu canlyniadau i'r ymgeiswyr

7.16 Diben camau 9 a 10 o'r broses oedd cyfleu canlyniad y broses i'r holl ymgeiswyr. Mae'n dweud:

- 9. Rhowch wybod i'r cyflenwyr nad oeddent yn bodloni'r meini prawf nad ydynt ar y Rhestr*
- 10. Rhowch wybod i'r cyflenwyr buddugol eu bod ar y Rhestr.*

7.17 Rhan o gŵyn Mr Coppock am y broses hon oedd y ffordd bu'r Cyngor yn cyfathrebu ag ef. Rydym yn nodi manylion y cyfathrebu rhwng y Cyngor a'r ymgeiswyr i'r rhaglen cydweithwyr celfyddydol isod.

Cyfleu canlyniad y broses i'r ymgeiswyr

7.18 Ar 25 Ionawr 2019, ar ôl y gweithdai, anfonwyd neges e-bost at bawb a ddaeth i'r gweithdai gan gydgysylltydd y tîm ar ran y Cyngor. Roedd y neges yn diolch i'r ymgeiswyr am ddod ac yn gofyn iddynt gyflwyno eu CV, os nad oeddent wedi gwneud eisoes. Roedd hefyd yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i ffeilio treuliau.

7.19 Anfonwyd y neges nesaf gan y Cyngor ar 15 Mawrth 2019, eto gan gydgysylltydd y tîm. Roedd yr e-bost yn diolch i'r ymgeiswyr eto am dreulio eu hamser ar y broses ac yn esbonio bod y broses dethol yn cymryd yn hirach na'r disgwyl:

“Roeddem wedi gobeithio dod â'r trafodaethau ynghylch y Cydweithwyr Celfyddydol, y dethol a'r grwpio o amgylch themâu ein gwaith yn y dyfodol, i ben erbyn dechrau mis Mawrth. Rydym wedi penderfynu ymestyn y cyfnod hwn wrth inni ddechrau adolygu a dadansoddi'r ymatebion i'n hymgyngoriad ar y Loteri, a fydd yn llywio rôl y Cydweithwyr Celfyddydol ymhellach. Daw'r gwaith hwn i ben erbyn diwedd mis Ebrill a byddwn yn cysylltu â chi bryd hynny.”

7.20 Hefyd esboniodd y neges e-bost bod cyfarwyddwr y celfyddydau, David Alston, wedi ymdeol. O hyn allan, cyfarwyddwr gwasanaethau ariannu'r celfyddydau, Kath Davies, fyddai'n ymgymryd â'r gwaith hwn.

7.21 Ar 23 Mai 2019 anfonwyd y neges nesaf. Anfonwyd dwy neges e-bost gan Kath Davies gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost grŵp y Cyngor.

7.22 Anfonwyd un neges e-bost at yr ymgeiswyr llwyddiannus yn esbonio eu bod wedi cael eu derbyn i'r cynllun. Roedd y neges at yr ymgeiswyr llwyddiannus yn dweud:

“Mae'n bleser gen i ddweud eich bod wedi'ch nodi fel rhywun sy'n cydweddu â rhai o'r meysydd gwaith penodol cyfredol, a byddwn yn cysylltu â chi yn yr wythnosau nesaf i fanteisio ar eich profiad a'ch gwybodaeth sy'n alinio'n arbennig â'r meysydd gwaith penodol hyn”

7.23 Anfonwyd neges e-bost arall at yr ymgeiswyr na chafodd eu dethol ar yr adeg hon, ond dywedodd y gellid eu galw arnynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

7.24 Nid oedd Mr Coppock yn llwyddiannus. Cafodd yr ail neges e-bost oedd yn cynnwys ymddiheuriad am yr oedi yn y broses. Roedd hefyd yn dweud:

“Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn edrych ar gyflwyno'n raddol y defnydd o Gydwethwyr mewn gwahanol feysydd a byddwn yn cysylltu ag unigolion fel bo'n briodol. I'r rhai ohonoch na fyddwn yn cysylltu â chi yn y misoedd nesaf ynghylch

gweithio gyda ni fel Cydweithiwr, gobeithiwn eich bod yn fodlon inni gadw eich gwybodaeth ar ffeil.”

7.25 Nid yw'r neges e-bost hon yn dweud yn glir nad oedd Mr Coppock wedi bod yn llwyddiannus. Hon oedd y neges olaf a gafodd Mr Coppock ynghylch ei gais i fod yn gydweithiwr celfyddydol. Yn ddiweddarach, cafodd wybod bod 47 o gydweithwyr celfyddydol wedi cael eu dethol trwy fynd i wefan Cyngor y Celfyddydau.

Sylw

Bu oedi o ran cyfathrebu rhwng y Cyngor a'r holl ymgeiswyr am rôl cydweithiwr celfyddydol. Er yr anfonwyd un neges e-bost ar 15 Mawrth 2019 yn esbonio y byddai oedi, dylid bod wedi anfon neges arall i ddweud na fyddai'r gwaith yn cael ei gyflawni erbyn y terfyn amser diwygiedig.

Hefyd, nid oedd y neges e-bost a anfonwyd at yr ymgeiswyr aflwyddiannus ar 23 Mai yn glir. Gadawyd yr ymgeiswyr i ddehongli a oedd hyn yn golygu eu bod yn aflwyddiannus, neu a oeddent yn mynd i gael eu dewis yn y flwyddyn i ddod. Byddai'r neges hon wedi gallu bod yn fwy clir. Ar ben hynny, buasai'n rhesymol dweud wrth yr ymgeiswyr aflwyddiannus bod y Cyngor wedi dethol carfan o gydweithwyr celfyddydol, ond nad oedden nhw wedi bod yn llwyddiannus.

A2 Dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw gyfathrebu'n amserol ac yn glir.

Y cyfeiriad e-bost grŵp

7.26 Crëwyd cyfeiriad e-bost grŵp gan y Cyngor ar gyfer dethol cydweithwyr celfyddydol. Y cyfeiriad e-bost oedd: cydweithwyrcefyddydol@celf.cymru

7.27 Yn ystod y broses gwyno, dywedodd Mr Coppock wrth y Cyngor y teimlai fod defnyddio e-bost grŵp fel hyn yn “*generig*” ac yn “*amharchus*”. Teimlai y dylai'r Cyngor fod wedi personoli'r negeseuon.

7.28 Ymatebodd Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru i Mr Coppock i ddechrau, o dan gam un o'r broses gwyno, gan ddweud "*mae arna i ofn ein bod ni wedi defnyddio negeseuon wedi'u safoni lle byddai arddull mwy personol wedi bod yn well*".

7.29 Mewn llythyr arall at Mr Coppock yn ystod cam dau o'r broses gwyno, dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol:

"mae'r cyfeiriadau e-bost generig yn rhan o'n harfer safonol pan fyddwn yn anfon yr un neges at nifer o unigolion allanol ar yr un pryd. Mae hyn er mwyn diogelu cyfeiriadau e-bost personol y derbynwyr unigol."

7.30 Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod wedi creu'r cyfeiriad e-bost hwn "*er mwyn rheoli nifer o gyfeiriadau e-bost gwahanol heb eu datgelu i drydydd partion o ystyried y Ddeddf Diogelu Data, ac i ganiatáu i dîm o swyddogion reoli'r cyfathrebu.*"

Sylw

Mae'n rhesymol i'r Cyngor greu cyfeiriad e-bost grŵp i gyfathrebu â grŵp penodol o ymgeiswyr. Mae'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r GDPR ac yn golygu ei fod yn gallu rheoli ymatebion a chyfathrebu. Fodd bynnag, dylai Prif Swyddog Gweithredol y Cyngor fod wedi rhoi gwybod i Mr Coppock am hyn yn ystod cam un. Newidiodd y neges drwy gydol yr ohebiaeth gwyno. Achosodd hyn i Mr Coppock beidio ag ymddiried yn y broses.

Cam 11: dechrau gwaith

7.31 Mae cam 11 yn digwydd ar ôl penodi'r ymgeiswyr llwyddiannus:

11. Bydd pob darn o waith a archebir gennych yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau a anfonwyd gyda'r gwahoddiad."

7.32 Ar ôl cofrestru'r ymgeiswyr llwyddiannus fel cydweithwyr celfyddydol, aethant ymlaen i gam olaf y broses sef dechrau eu gwaith gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.

8. Cwyn Mr Coppock ac ymatebion Cyngor Celfyddydau Cymru

8.1 Mae'r adran hon yn rhoi manylion cwyn Mr Coppock ac ymatebion Cyngor Celfyddydau Cymru.

Cwyn Mr Coppock

8.2 Ar 25 Hydref 2019 cyflwynodd Mr Coppock gŵyn i'r Cyngor ynghylch y broses dethol. Anfonodd neges e-bost at brif weithredwr y Cyngor yn nodi ei farn am y broses a'r ohebiaeth a gafodd drwy gydol y broses. Dywedodd:

- Na chadwyd at y broses briodol yn y broses dethol, a
- nad oedd cyfathrebiadau Cyngor Celfyddydau Cymru drwy gydol y broses dethol wedi bodloni'r normau derbyniol a rhesymol.

8.3 Ysgrifennodd Mr Coppock ei fod yn teimlo bod y cyfathrebu drwy gydol y broses yn amhersonol ac y bu oedi afresymol.

8.4 Hefyd, cwestiynodd Mr Coppock sut, os dilynwyd y broses briodol, y cafodd nifer o gydweithwyr celfyddydol llwyddiannus nad oeddent wedi mynd i'r gweithdai, yn ogystal â rhai nad oeddent wedi gwneud cais o gwbl, eu dethol yn gydweithwyr celfyddydol.

8.5 Trafodwyd manylion eraill ynghylch natur contract y cydweithiwr celfyddydol yn yr ohebiaeth gwyno, er enghraifft hyd y contract. Nid oedd y manylion hyn wedi'u cynnwys yn y gwahoddiad na'r pecyn cais.

8.6 Ymatebodd y prif weithredwr i'r gŵyn wreiddiol ar 6 Tachwedd 2019. Aeth negeseuon e-bost a llythyrau yn ôl ac ymlaen wedyn yn trafod cwyn Mr Coppock, ac ymatebion Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydym wedi nodi amserlen y cyfathrebu yn ymwneud â'r gŵyn hon yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn.

Ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru i gŵyn Mr Coppock

8.7 Roedd ymateb y Cyngor i gŵyn Mr Coppock fel a ganlyn:

Cyfathrebu o fewn y broses

8.8 Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru'n cydnabod nad oedd y cyfathrebu yn y broses hon gystal ag y gallai fod. Esboniodd y prif weithredwr:

“mae'n amlwg na chafodd proses Cydweithwyr Celfyddydol ei rheoli i'r un safon uchel o weinyddu ag y disgwyliem fel arfer. Cyfrifoldeb ein cyn Gyfarwyddwr y Celfyddydau David Alston oedd rheoli'r Cydweithwyr Celfyddydol, ac ers iddo ymadael, cafwyd nifer o gyfrifoldebau y bu'n rhaid eu hail-neilltuo ar draws y tîm sy'n weddill. Yn achos y Cydweithwyr Celfyddydol, dylai'r gwaith trosglwyddo fod wedi cael ei reoli'n well. Nid esgus mo hwn, ond esboniad. Er hynny, rydych yn tynnu sylw at nifer o fethiannau yn y broses y dylid fod wedi'u hosgoi.”

8.9 Ymddiheurodd y Cyngor a dywedodd y byddai'n adolygu'r ffordd y mae'n cyfathrebu ag ymgeiswyr yn y dyfodol:

“Mae arnaf ofn fod yn rhaid imi gytuno â'ch cwyn nad ymdriniwyd â'r materion hyn i'r safonau gweinyddol a ddisgwylid gennym fel arfer. Mae'n flin gennyf am unrhyw drallod y gallem fod wedi ei achosi ac rwy'n ymddiheuro'n ddiffuant... rwy'n ddiolchgar ichi am dynnu fy sylw at y materion hyn, a bydd eich pryderon ynghylch ein proses ni yn ein helpu i ganfod a chyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol.”

8.10 Rydym wedi gofyn i'r Cyngor pa welliannau mae wedi'u gwneud, neu'n bwriadu eu rhoi ar waith, ers y gŵyn hon. Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod wedi gwneud nifer o welliannau ers mis Ionawr 2020. Mae'r rhestr o welliannau a ddarparwyd gan y Cyngor yn cynnwys:

- Wedi datblygu canllawiau ar gyfer y cydweithwyr celfyddydol presennol.

- Cyflwyno arolygon ar gyfer cydweithwyr celfyddydol a swyddogion cyngor y celfyddydau sy'n ymwneud â chyfarfodydd penderfynu am grantiau, ar gyfer adborth
- Cynnwys cydweithwyr celfyddydol mewn meysydd eraill o'i waith megis cyfarfodydd grwpiau datblygu sector
- Gwella cyfrifoldebau diogelu data.

8.11 Roedd y rhestr o welliannau a roddwyd inni, gan gynnwys y canllawiau a ddatblygwyd ar gyfer cydweithwyr celfyddydol, yn fanwl ac yn glir. Mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth fanwl am recriwtio cydweithwyr celfyddydol, pryd caiff y cylchoedd recriwtio eu cynnal a'r meini prawf a ddefnyddir i roi sgôr i ymgeiswyr. Mae hefyd yn cynnwys adran ar gyfathrebu a'r hyn y dylid ei ddisgwyl gan y cydweithwyr celfyddydol a'r Cyngor. Bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r cydweithwyr celfyddydol presennol.

Sylw

Roedd y cyfathrebu o fewn y broses gwyno rhwng y Cyngor a Mr Coppock yn dda ar y cyfan. Byddai modd ei wella trwy nodi'n benodol y gwelliannau o ran cyfathrebu y cyfeiriodd y Prif Swyddog Gweithredol atynt.

Mae'r gwelliannau a restrir uchod gan y Cyngor o fudd i'r cydweithwyr celfyddydol presennol, y rhai newydd neu'r rhai sy'n awyddus i fod yn gydweithwyr.

Y broses briodol yn y broses dethol

8.12 Mae llythyr ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru, dyddiedig 25 Tachwedd, yn dweud y byddai wedi gallu bod yn fwy clir ynghylch y meini prawf dethol a ddefnyddiwyd i asesu'r ymgeiswyr. Fodd bynnag, nid yw'r ymateb yn nodi pa feini prawf a ddefnyddiwyd er mwyn asesu'r ymgeiswyr yn deg.

8.13 Dywedodd ymateb y Cyngor:

“Rôl y Cydweithwyr Celfyddydol yw cefnogi ein swyddogion i gyflawni ein gwaith yn effeithiol. Rydym yn chwilio am Gydweithwyr â sgiliau sy’n berthnasol i’n blaenoriaethau polisi. Fodd bynnag, rydym hefyd yn chwilio am Gydweithwyr sy’n gweddu’n dda â’n tîm o swyddogion, am ei bod hi’n bwysig inni ategu sgiliau ein tîm mewnol gydag amrywiaeth ehangach o arbenigedd. Lluniwyd y gweithdai i greu cyfle ymarferol i ymchwilio i’r materion hyn. Rhoddwyd ystyriaeth i ddealltwriaeth y cyfranogwyr o’n agenda, y sgiliau penodol roeddent yn eu cynnig a’u gallu i weithio’n gadarnhaol ac yn adeiladol mewn tîm. Yn anochel, mae asesu pethau o’r fath yn fater o farn i’r swyddogion, ond credwn inni ei wneud yn glir o’r cychwyn nad pawb a aeth i’r gweithdy fyddai’n cael bod yn Gydweithiwr.”

8.14 Nid oedd ymatebion cyngor y celfyddydau i Mr Coppock yn nodi meini prawf clir a ddefnyddiwyd ar gyfer y broses dethol.

Sylw

Fe ymatebodd y Cyngor i lawer o gwestiynau a phwyntiau Mr Coppock yn ei lythyrau cwyn drwy gydol camau un a dau o’r broses hon. Fodd bynnag, ni esboniodd y Cyngor ei broses yn glir. Felly ni ymatebwyd i’r pwynt hwn yn llawn.

9. Canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion

9.1 Mae'r adran hon yn nodi ein canfyddiadau a'n casgliadau. Mae'n ystyried a yw Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dilyn proses deg wrth recriwtio a phenodi cydweithwyr celfyddydol.

Proses a dull asesu'r Cyngor ar gyfer recriwtio cydweithwyr celfyddydol

9.2 Rydym wedi adolygu'r broses o ddethol cydweithwyr celfyddydol a ddefnyddiwyd gan y Cyngor yn erbyn y canllawiau yn y llawlyfr caffael.

9.3 Rhoesom ystyriaeth i bob cam yn y broses dethol, o'r hysbyseb, y datganiadau o ddiddordeb cychwynnol, gweithdai'r adran a sut wnaeth y Cyngor ddethol yr ymgeiswyr llwyddiannus.

9.4 Gwnaethom adolygu sut y gwyrdd y Cyngor oddi wrth ei broses i ddethol y cydweithwyr celfyddydol ychwanegol yr oedd eu hangen arno, er nad oedd ganddo restr ddiffiniedig o'r hyn yr oedd yn ei geisio gan yr ymgeiswyr.

Canfyddiad

C1 Canfyddwn nad oedd y Cyngor wedi dilyn ei broses ei hun a nodir yn ei lawlyfr caffael. Nid oedd wedi creu manyleb person, rhestr o'r gofynion sylfaenol na meini prawf er mwyn asesu'r ymgeiswyr yn deg. Hefyd, gwyrdd oddi wrth y broses a bennwyd ganddo i ddethol ymgeiswyr oedd yn llenwi 'bylchau' yn ei arbenigedd, er nad oedd ganddo restr o'r arbenigedd yr oedd yn chwilio amdano. Canfyddwn fod hyn yn annheg ac nad oedd yn hybu cyfle cyfartal i'r holl ymgeiswyr.

Ymatebion y Cyngor i'r pryderon a godwyd gan yr achwynydd

9.5 Rhoesom ystyriaeth i'r negeseuon e-bost a rannwyd rhwng y Cyngor a'r ymgeiswyr am rôl cydweithiwr celfyddydol.

9.6 Hefyd gwnaethom adolygu'r llythyrau a rannwyd rhwng y Cyngor a Mr Coppock fel rhan o'r broses gwyno, ac a roddwyd ymatebion llawn ai peidio. Gwnaethom adolygu'r ymatebion i'r gŵyn ynghylch cyfathrebu gwael. Hefyd gwnaethom adolygu'r ymateb i'r gŵyn ynghylch y broses dethol.

Canfyddiad

C2 Canfyddwn fod y cyfathrebu rhwng y Cyngor a Mr Coppock yn ystod y broses gwyno gan amlaf yn mynd i'r afael â'i gwestiynau a'i bryderon yn eu tro. Roedd ymatebion Cyngor Celfyddydau Cymru'n cydnabod y bu diffyg cyfathrebu o fewn y broses dethol. Fodd bynnag, methodd yr ymateb â nodi pa feini prawf a ddefnyddiwyd er mwyn asesu'r ymgeiswyr yn deg, na pha gamau oedd yn cael eu cymryd i wella'r cyfathrebu ag ymgeiswyr yn y dyfodol.

Casgliad cyffredinol

9.7 Aeth proses dethol y cydweithwyr celfyddydol yn groes i'r broses a nodir yn llawlyfr caffael y Cyngor. Nid oedd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi creu meini prawf clir ar gyfer asesu'r ymgeiswyr yn deg. Hefyd, ni ddarparodd gyfiawnhad dros wyro oddi wrth ei broses er mwyn llenwi bylchau mewn arbenigedd. Er nad yw cydweithwyr celfyddydol yn gyflogeion parhaol, maent yn haeddu cael eu hasesu'n deg. Drwy beidio â meddu ar feini prawf gwrthrychol, nid oedd y broses dethol ar gyfer cydweithwyr celfyddydol yn rhoi cyfle cyfartal i'r holl ymgeiswyr.

9.8 Bu oedi o ran cyfathrebu â'r ymgeiswyr, a byddai'r negeseuon a anfonwyd at yr ymgeiswyr aflwyddiannus wedi gallu bod yn fwy clir. Cydnabuwyd hyn yn y negeseuon rhwng y Cyngor a Mr Coppock yn yr ohebiaeth gwyno. Byddai'r ymateb i Mr Coppock ynghylch cyfathrebu wedi gallu bod yn fwy clir wrth ddiffinio pa welliannau o ran cyfathrebu roedd y Cyngor yn eu rhoi ar waith yn y dyfodol.

Argymhellion

A1 Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau ei fod yn dilyn ei brosesau ei hun trwy ddiffinio meini prawf clir i'w defnyddio er mwyn asesu ymgeiswyr yn deg ar gyfer pob rôl.

A2 Dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw gyfathrebu'n amserol ac yn glir

Atodiad A

Y dogfennau a ystyriwyd yn ystod yr ymchwiliad

Isod ceir rhestr o'r dogfennau a ystyriwyd gennym fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Hefyd cawsom sgysiau ffôn gyda'r achwynydd a Chyngor Celfyddydau Cymru.

- Cwyn wreiddiol - 25 Hydref 2019
- Ymateb cwyn ffurfiol i gam un o'r broses gwyno - 6 Tachwedd 2019
- Llythyr cwyn cam dau oddi wrth Mr Coppock - 14 Tachwedd 2019
- Llythyr ymateb cam dau oddi wrth y Cyngor i Mr Coppock - 25 Tachwedd 2019
- Llythyr cwyn oddi wrth Mr Coppock yn gofyn am godi ei gŵyn i'r gwasanaeth adolygu cwynion annibynnol - 4 Rhagfyr 2019
- Negeseuon e-bost yn cynnwys llythyrau cwyn a gohebiaeth rhwng y Cyngor a Mr Coppock
- CV Mr Coppock
- Datganiad o ddiddordeb Mr Coppock
- Nodiadau gweithdy Mr Coppock
- Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn chwilio am Gydweithwyr Celfyddydol
- Chwilio am Gydweithwyr Celfyddydol
- Neges e-bost Kath Davies ar 23 Mai 2019 at ymgeiswyr llwyddiannus
- Llawlyfr polisiau a gweithdrefnau caffael

Chwilio am Gydweithwyr Celfyddydol - hysbyseb ar gyfer y rôl

Isod ceir y cyhoeddiad a ddefnyddiwyd i hysbysebu ar gyfer rôl y cydweithiwr celfyddydol



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn chwilio am Gydweithwyr Celfyddydol

Ydych chi'n credu bod y celfyddydau yn gallu newid bywyd?

Ydych chi'n credu y dylai'r celfyddydau fod ar gael i bawb?

Mae [Er budd pawb](#) yn disgrifio ein huchelgais hyd 2023.

Rydym ni'n creu ffordd newydd o ymwneud â'r gwaith. Bydd y blynyddoedd yma'n bwysig am fowldio cyfraniad y celfyddydau at y Gymru gyfoes. Rydym ni eisiau cymorth y sector i lywio'r broses yma.

Mae gennym swyddogion gyda gwybodaeth ac arbenigedd yn y celfyddydau. Ond nid yw'r celfyddydau'n sefyll yn eu hunfan ac mae eisiau mwy na hynny. Mae eisiau inni

gydweithio â phobl heriol a llawn dychymyg i helpu ein gwaith. Yn aml bydd y bobl yma'n artistiaid â'u profiad a'u harbenigedd neu'n bobl o gymunedau neu feysydd lle mae'r celfyddydau'n datblygu. I wireddu *Er budd pawb*, mae eisiau Cydweithwyr amrywiol ac ymgyrchol.

Dyma rôl y Cydweithwyr:

- Bod yn aelod o'n grwpiau datblygu sector sy'n trafod celfyddydau a ffyrdd o weithio.
- Gallu bod yn aelod o'n grwpiau penderfynu am grantiau - fel rydym wedi'i wneud o'r blaen gydag artistiaid a gweithwyr yn y maes yn ein rhaglen, Cymru Greadigol. Ar hyn o bryd rydym ni'n ymgynghori am ddyfodol ein gwaith [Y Loteri Genedlaethol](#)
- Thema fawr y Cyngor yw ehangu'r math y bobl sy'n ymwneud â'r celfyddydau. Bydd ein Cydweithwyr Celfyddydol yn ein helpu drwy gyrraedd cymunedau a chryfhau ein hagenda cydraddoldeb a chynnwys pawb.
- Cymryd rhan yn ein gweithdai, ein cynhadledd a'n Sgyrsiau Creadigol.
- Weithiau bod yn rhan o grwpiau gorchwyl a gorffen mewnol am ddatblygu'r celfyddydau.
- Rydym ni am i hyn fod yn waith difyr a diddorol i bawb. Mae'n bosibl bydd un o'n grwpiau datblygu sector am ichi wneud rhyw waith penodol gydag un neu fwy o'n sefydliadau.
- Rydym yn chwilio am bobl hefyd sy'n brofiadol ym maes gweithio'n rhyngwladol ar gyfer Pwyllgor Ymgynghorol Fenis ac o bosibl rheoli prosiectau rhyngwladol.

Yr ochr ymarferol

Cewch dâl am hanner diwrnod (£150) neu ddiwrnod cyfan (£300). Gyda rhai gweithgareddau cewch dreuliau'n unig, er enghraifft, dod i'n cynhadledd flynyddol neu sgyrsiau creadigol. Mae ein polisi teithio a chynhaliaeth wedi'i seilio ar un Llywodraeth Cymru. Cewch gopi os byddwch chi'n llwyddiannus.

Rhaid inni gael Cydweithwyr sy'n gallu gyrru ein gwaith yn ei flaen i gefnogi'r diwylliant Cymraeg.

Rydym ni am gael Cydweithwyr ledled Cymru.

Byddai'r gwaith yma'n gallu cymryd hyd at 10 diwrnod y flwyddyn (yn fras).

Bydd yn bosibl o hyd ichi gynnig am waith arall gyda'r Cyngor pan ydych chi'n Gydweithiwr. Byddwch chi hefyd yn gallu gwneud cais am grant oddi wrthym fel unigolyn neu'n rhan o sefydliad.

Â diddordeb?

Byddwch chi'n gallu mynegi diddordeb mewn sawl ffordd. Rydym ni am gael darn byr am eich bywyd a pham rydych chi â diddordeb yn y gwaith. Bydd hyn yn gallu bod yn ysgrifenedig, ar lafar neu ar ffilm. (Dim mwy na 500 gair neu 3 munud siarad neu ffilm.)

Bydd cyfres o weithdai i ddewis cydweithwyr ar 22 Ionawr (yn Abertawe) a 23 Ionawr (yn Wrecsam)

I fynegi diddordeb, anfonwch at gydweithwyrselfyddol@celf.cymru neu postiwch (gan nodi 'Cydweithwyr Celfyddydol' arno) i Gyngor Celfyddydau Cymru, Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL
Erbyn 20 Rhagfyr 2018

Nawr Yr Arwr, Neuadd y Brangwyn, Abertawe (llun: Warren Orchard)

